Ynglŷn â CGLlFfS

CGLlFfS yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer Sir y Fflint, ac mae'n cefnogi mwy na 2,000 o elusennau, mentrau cymdeithasol, gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol ledled y sir.
Fel rhan o bartneriaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru ledled Cymru (TSSW), mae CGLlFfS yn cefnogi ac yn cryfhau'r Trydydd Sector drwy bedwar conglfaen allweddol: gwirfoddoli, cyllid cynaliadwy, llywodraethu da, a dylanwadu ac ymgysylltu.

Mae pob Cyngor Gwirfoddol Sirol yn adlewyrchu'r conglfeini hyn mewn ffyrdd sy'n ymateb i anghenion ei gymunedau lleol. Yn CGLlFfS, mae ein gwaith yn cael ei gyflawni trwy dri thîm penodedig:

- Presgripsiynu Cymdeithasol: Mae ein tîm mwyaf yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr cymdeithasol, gan gysylltu trigolion Sir y Fflint â gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol a all gefnogi eu hiechyd, eu lles a'u hannibyniaeth.
- Gwirfoddoli: Mae ein tîm Gwirfoddoli yn creu cyfleoedd gwirfoddoli ystyrlon i bobl leol wrth gefnogi a datblygu gwirfoddolwyr sy'n gwneud cyfraniad hanfodol at Drydydd Sector cynaliadwy sy'n ffynnu.
- Llywodraethu a Chyllid: Mae'r tîm yn rhoi cyngor a chefnogaeth ymarferol i fudiadau gwirfoddol a chymunedol, gan eu helpu i gryfhau eu llywodraethu, nodi cyfleoedd cyllido a datblygu cynaliadwyedd hirdymor.

Wedi'i seilio ar ein cymunedau, mae CGLlFfS yn helpu mudiadau'r Trydydd Sector i gysylltu, arloesi, tyfu a ffynnu. Trwy gynnig cyngor, cefnogaeth, cyllid a gweithio mewn partneriaeth, rydym yn helpu i ddatblygu sector gwirfoddol cryf a chydnerth sy'n cyflawni effaith gymdeithasol ystyrlon ledled Sir y Fflint.

Mae rhagor o wybodaeth am CGLlFfS a'n gwaith ar gael ar ein gwefan, gan gynnwys ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2025/26 a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Ar hyn o bryd mae CGLlFfS yn cyflogi 14 aelod o staff ac mae'n cael ei lywodraethu gan Fwrdd o 11 ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd llawn yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn ac yn cael ei gefnogi gan ddau is-bwyllgor, Cyllid a Dibenion Cyffredinol, a Phersonél, sydd hefyd yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn.

Ynglŷn â'r Rôl

Fel Prif Swyddog, byddwch yn:

- Rhoi arweinyddiaeth ysbrydoledig, dan arweiniad gwerthoedd, i dîm ymroddedig a thalentog, gan greu diwylliant cadarnhaol a chynhwysol lle y gall pobl ffynnu.

- Hyrwyddo llais Trydydd Sector Sir y Fflint, gan sicrhau bod anghenion, profiadau a chyfraniad mudiadau gwirfoddol a chymunedol yn cael eu clywed yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol ledled Sir y Fflint, gan weithio gyda phartneriaid i gryfhau a chynnal y model a gwneud y mwyaf o'i effaith ar gymunedau lleol.
- Ysgogi strategaeth CGLlFfS ar gyfer cynaliadwyedd, arloesi a thwf, gan sicrhau bod y mudiad yn parhau i fod yn ymatebol, yn gydnerth ac yn ariannol gynaliadwy.
- Eirioli dros gymunedau Sir y Fflint, gan ymateb i heriau ac anghydraddoldebau sy'n datblygu, gan gynnwys pwysau costau byw, allgau digidol a chydnerthedd cymdeithasol.
- Datblygu partneriaethau dibynadwy a dilys gydag aelodau, cyllidwyr, cyrff cyhoeddus a phartneriaid statudol, wedi'u seilio ar gydweithrediad, agored a pharch i'r ddwy ochr.
- Gweithio'n effeithiol gyda'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, gan gefnogi llywodraethu cryf, gwneud penderfyniadau gwybodus a datblygiad parhaus CGLlFfS.